

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 24
Medi, 2019 yn Ystafell Siabod, Plas y Brenin, Capel Curig**

Presennol: Gwyn (GW) Iolo (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Iolo (ap Gwynn) (IAG), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Eirwen (EW), Gareth (GER)

Ymddiheuriadau: Raymond, Dewi, Richard

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Mai, 2019 fel rhai cywir.</p>
2.	<p><u>MATERION ARIANNOL</u></p> <p><u>Sefyllfa Ariannol</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol.</p> <p>Adroddodd</p> <ul style="list-style-type: none">• bod 315 o aelodau bellach, 22 wedi ymaelodi yn ystod ac ar ôl yr Eisteddfod. O'r cyfanswm yma doedd 59 ddim yn talu'r tâl aelodaeth newydd o £20• Ar y cyfrifon am eleni, gan nodi y bydd y flwyddyn ariannol yn dod i ben yn niwedd Medi, ymddengys bod gan y Clwb oddeutu £6000 wrth gefn.• bod y pwyllgor eisoes wedi derbyn bydd canran o'r arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â'r cynnydd yn y cyfraniadau i'r CMP flwyddyn nesaf wrth gadw'r tâl aelodaeth yr un fath. <p>Cytunwyd</p> <p>i. diolch i DAP am yr adroddiad</p> <p>ii. gofyn iddi gysylltu â'r 59 aelod y cyfeirir atynt uchod unwaith eto i'w hatgoffa o'r angen i dalu tâl aelodaeth lawn ac os na fyddent yn gwneud hynny bydd eu haelodaeth yn dod i ben a byddent yn colli'r buddiannau o fod yn aelod h.y. derbyn e-byst, cerdyn aelodaeth a bod yn aelod o'r CMP ac yn hytrach byddent yn cael eu categoreiddio fel cefnogwyr.</p> <p>iii. bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cael diweddariad am y sefyllfa gyda chyfraniadau'r CMP a'r tebygolrwydd y bydd yn rhaid cynyddu tâl aelodaeth y Clwb eto yn 2020 ar gyfer 2021.</p>
3.	<p><u>CAIS AM STATWS ELUSENNOL I'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd DAP ei bod wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi i gofrestru'r Clwb fel elusen hefo'r Comisiynwyr Elusennau.</p> <p>Er mwyn gallu cofrestru fel elusen, byddai'n rhaid mabwysiadu cyfansoddiad fyddai'n cwrdd â gofynion y Comisiynwyr Elusennau. Mae gan y Comisiwn fodel o gyfansoddiad ar gyfer cymdeithasau ac amlinellodd ei brif bwyntiau</p> <p>Daeth i'r amlwg na fyddai statws elusennol y Clwb yn ei wneud yn gymwys i fanteisio ar y Cynllun treth "rhodd cymorth" gan fod derbyn yswiriant y CMP drwy aelodaeth y Clwb eisoes o fudd i'r unigolyn. Yn sgil hynny byddai'n rhaid i'r Pwyllgor a'r Clwb ystyried p'run ai symud ymlaen hefo'r broses ai peidio.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar y mater a nodwyd byddai cofrestru fel elusen a mabwysiadu cyfansoddiad addas i wneud hynny yn sicrhau bod gan y Clwb gyfansoddiad cyfredol ar gyfer y dyfodol a fyddai yn diogelu'r aelodaeth a'r pwyllgor a gellid manteisio ar fuddion eraill a allai godi o fod yn elusen.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. byddai'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cyfarfod Blynyddol y dylid symud ymlaen i wneud cais i gofrestru'r Clwb fel elusen</p> <p>ii. bydd DAP yn paratoi cyfansoddiad ar gyfer y clwb yn seiliedig ar gyfansoddiad fodel y Comisiynwyr Elusennau a'i gylchredeg ymysg aelodau'r pwyllgor yn gyntaf ac wedyn yr aelodaeth yn gyffredinol.</p> <p>iii. bydd y Pwyllgor yn argymhell i'r Cyfarfod Blynyddol y dylid mabwysiadu'r cyfansoddiad newydd</p> <p>iv. gall DAP ofyn am gymorth swyddogion eraill y pwyllgor os bydd angen cymorth hefo'r gwaith</p> <p>v. diolch i DAP am ei holl waith yn paratoi'r cais ar ran y Clwb</p>

4.	<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL</u>
	<p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2019</u></p> <p>Diolchodd GW i bawb a gyfrannodd tuag at y trefniadau ar gyfer dathliadau 40 y Clwb yn Eisteddfod Llanrwst eleni. Roedd pawb yn gytún fod y dathliadau wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt.</p> <p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2020</u></p> <p>Cytunwyd y dylai DP symud ymlaen gyda'r trefniadau pan yn addas ac y dylid gofyn i Caradog Jones fod yn ŵr gwadd yn Eisteddfod Tregaron. .</p>
5.	<u>OFFER Y CLWB</u>
	<p>Adroddodd GW ar yr angen i'r Clwb gael trefn o gofnodi a chadw yn ddiogel yr holl offer yn ei feddiant.</p> <p>Yn y drafodaeth nodwyd bod yr offer canlynol ym meddiant y clwb</p> <p>Taflunydd a sgrin 3 x pop up 2 x banner 7 x lloches argyfwng</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. byddai DAP yn paratoi rhestr o offer y Clwb ac y byddai wedyn ar gael i'w weld ar y wefan ii. dylid cadarnhau gyda Myfyr os oes unrhyw offer yn dal yn ei feddiant ef. iii. byddai DAP yn cadw yn ei chartref yr offer hynny nad oedd mewn defnydd cyson ac angen ei storio iv. diolch i DAP am ei pharodrwydd i ymgymryd â'r dyletswyddau yma.</p>
6.	<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2019</u>
	<p>Cafwyd diweddariad gan IPR ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfod yn y Royal Goat Beddgelert ar ddydd Sadwrn, 9fed Tachwedd, 2019.</p> <p>Adroddwyd bod y manylion wedi eu hanfon at yr aelodau. Roedd Gareth Pierce wedi cytuno i fod yn ŵr gwadd. Bydd yn cysylltu gydag aelodau'r pwyllgor maes o law i weld os oes rhywun yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn aelodi eleni a bydd nodyn yn cael ei anfon at yr aelodau yn gofyn a oes rhywun â diddordeb mewn bod yn aelod.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>
7.	<u>CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU</u>
	<p>Adroddodd GW ei fod wedi gweld Rhian Parry o'r Gymdeithas yn yr Eisteddfod a'i bod wedi mynegi siom na chafodd ymateb i gais a wnaed gan y Gymdeithas yn gynharach yn y flwyddyn ar i'r Clwb gydweithredu gyda nhw</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. hysbysu'r Gymdeithas fod y Clwb yn gefnogol i'w gwaith ond gan mai cymdeithas o gerddwyr sydd yn cael ei rhedeg yn wirfoddol yw'r Clwb, ei bod yn anodd gweld ym mha ffordd y gallasid arwain neu ddatblygu unrhyw waith yn y maes. ii. Fodd bynnag byddai'r clwb yn barod iawn i gynorthwyo os gallai mewn unrhyw ffordd brosiectau gan eraill yn y maes pe byddai hynny yn ymarferol ac yn sicr y byddai yn annog ei aelodau fel unigolion i wneud hynny hefyd os yn bosib iii. bod y Clwb eisoes wedi bod yn cydweithio hefo prosiect Mynyddoedd Pawb ac y gallai hyn barhau i'r dyfodol. iv. Ymddiheuro i'r Gymdeithas am yr oedi yn ymateb i'w cais gan nodi fod trefniadau'r dathliadau 40 wedi cael blaenoriaeth hyd yma eleni.</p>
8.	<u>STRATEGAETH TRAFNIDIAETH ARDAL ERYRI</u>
	<p>Adroddwyd fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn y broses o baratoi strategaeth trafnidiaeth ardal yr Wyddfa.</p>

	Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried hyn eto pan fydd yr Awdurdod wedi paratoi dogfen ymgynghorol ar eu strategaeth.	
9.	<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>	
	<p>Adroddodd EO ar y canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod RG yn bwriadau trefnu cwrs cymorth 1af drwy'r Bartneriaeth Awyr Agored. Mae cymhwyster nifer o aelodau yn dirwyn i ben a gallasant fod â diddordeb ei adnewyddu • roedd wedi cael ymholiad i drefnu hyfforddiant mordwyo hefo map a chwmpawd a byddai yn ystyried a fyddai hyn yn bosib. • bod trefniadau ar y gweill ar gyfer teithiau yn 2020 i'r Alban yn Chwefror a mis Mai a byddai manylion yn cael eu cylchredeg maes o law • bod GW yn ystyried trefnu taith i ardal Hawes yn Swydd Efrog ym mis Mai/Mehefin 2020 • bod Clwb Dringo Porthmadog wedi trefnu taith ar Ffordd y Bererindod yn Sbaen a'i fod yn edrych os byddai hyn yn rhywbeth y gallai'r Clwb ystyried ei drefnu yn y dyfodol. <p>Cytunwyd derbyn y wybodaeth a diolch i EO am ei waith diwyd.</p>	
10.	<u>MATERION CMP</u>	
	<p>Adroddodd SW</p> <ul style="list-style-type: none"> • mai'r tanysgrifiadau oedd y prif bwnc trafod yn y cyfarfod diwethaf a fynychodd • bod Elfyn Jones a'r partneriaid eraill wedi datgan eu bod yn hapus â'r trefniadau i rannu stondin hefo'r clwb yn yr Eisteddfod eleni • bod CMP wedi gwahodd cynrychiolydd o Bartneriaeth yr Wyddfa i'w cyfarfod i drafod gwanhaol faterion yn arbennig y sefyllfa parcio. • bod y CMP wedi penodi swyddog rhan amser wedi ei leoli yng Nghaerdydd gyda'r gobaith o godi proffil y sefydliad hefo Llywodraeth Cymru <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth</p>	
11.	<u>MATERION Y BARTNERIAETH</u>	
	Dim i'w adrodd	
12	<u>Y BABELL LEN – CWMNI DA.</u>	
	<p>Adroddodd EO bod y cwmni teledu - Cwmni Da - wedi cysylltu i ddweud eu bod yn paratoi cyfres o raglenni yn seiliedig ar weithgareddau yn y Babelll Len yn Eisteddfod Llanrwst eleni. Byddai'r sgwrs am hanes sefydlu'r Clwb o dan ofalaeth Gerallt Pennant yn cael ei chynnwys yn un o'r rhaglenni yma a'i darlledu. Bydd y Clwb yn derbyn swm o £150 i'r coffrau am hyn.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth</p>	
13.	<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>	
	Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar nos lun 13 Ionawr 2020, yng Nghapel Curig os yn bosibl.	